*This document is available in English* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r cynllun archwilio mewnol arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 i'r Aelodau.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sefydlu trefniadau ar gyfer archwilio systemau rheoli. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg yn ogystal â sicrhau bod rheolaeth ariannol yn ddigonol ac yn effeithiol.

3 Mae angen rheolaethau mewnol priodol fel sylfaen i drefniadau llywodraethu'r Awdurdod a rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol. Pan fyddant yn cymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol, mae'r Awdurdod yn dibynnu ar waith archwilio mewnol ac felly mae'n rhaid i'r trefniadau archwilio mewnol fod yn ddigon i roi sicrwydd.

4 Mae swyddogaeth archwilio fewnol yr Awdurdod yn cael ei chyflawni gan Mersey Internal Audit Agency (MIAA). Mae adolygiadau archwilio mewnol yn cael eu cynllunio a'u blaenoriaethu gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg ac sy'n sicrhau bod rheolaethau allweddol yn cael eu hadolygu ar gylch tair blynedd. Mae'r dull arfaethedig ar gyfer 2024/25 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Cymeradwyo'r rhaglen waith archwilio arfaethedig ar gyfer 2024/25 a chymeradwyo'r cynllun strategol tair blynedd.**

## CEFNDIR

6 Mae rheolaethau effeithiol yn hanfodol i'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ac maen nhw'n galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Datganiad Rheolaeth Fewnol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

7 Penodwyd archwilydd mewnol yr Awdurdod, MIAA, ym mis Mehefin 2023. Mae gwaith MIAA yn cael ei lywodraethu gan safonau proffesiynol sy'n sicrhau dull systematig a chadarn.

## GWYBODAETH

8 Mae'r gwaith manwl a wneir gan MIAA yn cael ei gynllunio a'i flaenoriaethu yn ôl asesiadau risg sy'n ystyried risgiau lleol a risgiau cenedlaethol. Mae'r cynllun strategol tair blynedd yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod meysydd rheoli allweddol yn cael eu hadolygu ar gylch tair blynedd, fel y nodir yn Atodiad 1.

9 Mae'r cynllun manwl ar gyfer 2024/25 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n cadarnhau'r rhaglen archwilio arfaethedig.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae rheoli a gweithredu systemau ariannol a systemau allweddol eraill mewn ffordd briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hwy ein gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r prosesau ar gyfer gosod a monitro cyllidebau yn effeithiol ac yn rhoi sicrwydd bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau allweddol yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol ac yn gweithredu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae gwaith MIAA yn cadarnhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac/neu mae'n gwneud argymhellion ar sut i wella. |